

PWYLLGOR:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	6 MAWRTH 2023
TEITL:	CYNLLUN HYFFORDDIANT
PWRPAS:	Derbyn diweddariad am hyfforddiant 2022/23 a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2023/24 gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i ddiweddarau'r Bwrdd am yr hyfforddiant sydd wedi digwydd yn 2022/23 a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2023/24 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau.

2. ADRODDIAD LLYWODRAETHU DA

2.1 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun Lloegr a Chymru yn nodi nifer o argymhellion a fyddai'n gwella llywodraethu'r CPLIL, ac yn cyrraedd lefel o gydraddoldeb o ran llywodraethu ar draws cronfeydd CPLIL yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da yn argymhell i:

'Gyflwyno gofyniad yn y Canllawiau i unigolion allweddol o fewn y CPLIL, gan gynnwys Swyddogion CPLIL a Phwyllgorau Pensiynau, gael y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.'

Ffocws allweddol yr adolygiad Llywodraethu Da oedd bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor lefel ddigonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

'Dylai Awdurdodau gweinyddol gyhoeddi polisi sy'n nodi eu dull o gyflwyno, asesu a chofnodi cynlluniau hyfforddi i fodloni'r gofynion hyn.'

2.3 Mae'r Gronfa felly wedi llunio polisi er mwyn cyflawni'r gofynion yma: [Polisi Sgiliau a Gwybodaeth 2022 \(cronfabensiwnngwynedd.cymru\)](#)

3. HYFFORDDIANT 2022/23

3.1 Mae'r cynllun a fabwysiadwyd yn 2022/23 yn atodiad 1 gyda'r cynnydd wedi ei nodi. Yn ychwanegol i'r Cynllun hyfforddiant mae'r swyddogion a aelodau'r bwrdd a pwyllgor wedi mynychu nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn.

Roedd gofyniad i aelodau newydd y Pwyllgor a Bwrdd fynychu y cwrs Hanfodion CPLIL, yn anffodus oherwydd streiciau trên a newid mewn lleoliadau, ni wnaeth pob aelod lwyddo i fynychu. Roedd hyn allan o rheolaeth yr aelodau ac y Gronfa a bydd yr aelodau yma yn mynychu yn Hydref 2023.

O fewn y Cynllun yn ogystal mae disgwyliad i swyddogion fynychu cwrs Cau Cyfrifon CIPFA, ond oherwydd dim newid mewn rheoliadau cyfrifo nid oedd hyn yn angenrheidiol eleni.

4. CYNLLUN HYFFORDDIANT 2023/24

4.1 Mae cynllun hyfforddiant ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 2.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2023/24 gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau.